

Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA)

Liz Green

Lee Parry-Williams

Nerys Edmonds

Gyda chyfraniadau gan Steinthora Jonsdottir

**Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru
(WHIASU), Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW)**

Mehefin 2017





Cydnabyddiaeth

Dymuna'r awduron ddiolch i'r unigolion canlynol a roddodd o'u hamser i adolygu a rhoi adborth ar y fframwaith ac a helpodd i wella'r cynnyrch terfynol:

- Sarah Andrews, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Kathryn Ashton, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Bronia Bendall, Cyfoeth Naturiol Cymru
- Andrew Buroni, RPS Consultants
- Anthea Cooke, Inukshuk Consulting
- Rachel Davies, Dinas a Sir Abertawe
- Eva Elliot, Prifysgol Caerdydd
- Lara Griffiths, Cyngor Sir Ddinbych
- Emma Horan, Cyngor Sir Ddinbych
- Kristian James, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Delyth Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Heather Ramasseur-Marsden, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Alastair Tomlinson, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
- Susan Toner, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ynglŷn ag Uned Asesu Effaith ar Iechyd Cymru

Mae Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (www.whiasu.wales.nhs.uk) yn rhan o Gyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cafodd ei sefydlu yn 2001 i wella iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yng Nghymru. Mae'r uned yn ffordd o ddefnyddio ymdrechion ar y cyd a gwybodaeth pob sector, maes polisi a chymuned i ddatblygu ymagweddau "Iechyd ym Mhob Polisi" a pholisi ac ymarfer sy'n sylfaen i asesu effaith ar iechyd (HIA) yng Nghymru.

Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol	4
2 Cyflwyniad	5
3 Diben	6
4 Methodoleg	6
5 Asesu Effaith ar Iechyd: Trosolwg	7
6 Pam mae angen Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd ar gyfer HIA arnom?	8
7 Canllawiau ar Ddefnyddio Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd HIA	11
8 Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd HIA	14
9 Nodiadau esboniadol	14
10 Adnoddau	15
11 Adborth	16



Crynodeb Gweithredol

Yng Nghymru, mae ymarfer Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) wedi bod yn datblygu ers dros 15 mlynedd. Mae Cymru wedi ennill parch yn rhyngwladol ym maes HIA oherwydd ffocws ar ddulliau paratoadol, anghydraddoldebau iechyd, gweledigaeth holistaidd o iechyd a llesiant, ymgysylltu ar draws sectorau, cymorth ar gyfer HIA sy'n cael eu harwain yn gymunedol, a gallu i lywio polisi ar lefel leol a chenedlaethol¹.

Mae'r Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd hwn yn offeryn arfarnu hanfodol ar gyfer HIA. Ei nod yw sicrhau bod ymarfer HIA yng Nghymru'n parhau i adlewyrchu'r gwerthoedd, y safonau a'r ymagweddau pwysig sydd wedi bod yn sylfaenol i ddatblygu ymarfer HIA yn y wlad hyd yn hyn.

Mae'r Fframwaith wedi cael ei ysgrifennu i gefnogi a rhoi arweiniad i unigolion a sefydliadau i gynnal adolygiad sicrhau ansawdd o asesiad o'r effaith ar iechyd ac mae wedi ei ddylunio fel dogfen annibynnol. Ei nod yw rhoi arweiniad i gomisiynwyr ac adolygwyr HIA. Mae wedi ei osod yn erbyn cyd-destun polisi ac ymarfer Cymru ac mae'n ategu canllawiau HIA Cymru 'HIA: Canllaw Ymarferol'².

Mae'r fframwaith wedi bod yn seiliedig ar y profiad helaeth a gafwyd trwy ymarfer HIA gan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU), llenyddiaeth ar effeithiolrwydd ac ansawdd mewn HIA, ac ymgysylltu ac adolygu gan ystod eang o ymarferwyr HIA, academyddion a swyddogion polisi fydd yn defnyddio'r fframwaith fel rhan o'u gwaith. Ei nod yw:

- Darparu fframwaith cyffredin a dealltwriaeth o HIA o ansawdd uchel
- Codi safon HIA a gynhelir yng Nghymru
- Sicrhau bod y dystiolaeth a ddefnyddir i lywio penderfyniadau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant yn gadarn ac yn gynhwysol
- Cynorthwyo ystod eang o gomisiynwyr, ymarferwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau i ffurfio barn ar unrhyw HIA a'i gynnyrch

Mae Fframwaith Adolygu Sicrwydd ansawdd HIA yn cynnwys:

- Canllawiau ynghylch sut i gynnal adolygiad sicrhau ansawdd HIA gan ddefnyddio'r fframwaith
- Fframwaith gyda meini prawf y mae angen eu harddangos mewn HIA hygred a chadarn, o ansawdd uchel.
- Nodiadau esboniadol
- Cyfeiriadau i adnoddau a chymorth defnyddiol

Ar ôl ei gwblhau, bydd yn rhoi darlun clir a dadansoddiad o gynnwys HIA. Bydd yr adolygwyr yn gallu ffurfio barn am yr HIA sydd wedi ei gwblhau a'i adroddiad cysylltiedig, a lefel yr ymddiriedaeth a'r hyder y gallant ei roi yn y cynnwys, y canfyddiadau a'r broses. Bydd yr adolygwyr yn gallu rhoi adborth clir i'r rheiny wnaeth ofyn am yr adolygiad neu'n uniongyrchol i'r awdur.

¹ Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru. Ymateb i Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) Cam Un 2016.

² Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru. **Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol.** (2012a)

Cyflwyniad

Mae cyhoeddi'r Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd hwn yn gam ymlaen pwysig i daith datblygu Asesu'r Effaith ar Iechyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Ei nod yw cryfhau ymarfer a defnyddio HIA yng Nghymru er mwyn cynyddu buddion a lleihau perygl ystod eang o bolisiau, rhaglenni, gwasanaethau a datblygiadau i iechyd a llesiant.

Mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi bod â diddordeb hirdymor o ran polisi ac wedi arwain Asesu Effaith ar Iechyd (HIA) yn rhyngwladol ers ymhell dros ddegawd³. Cafwyd ymrwymiad i ddatblygu'r defnydd o HIA mewn polisi a deddfwriaeth er mwyn gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau. Er enghraifft, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁴ a Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (2016)⁵ yn rhannu'r uchelgais i Asesu Effaith ar Iechyd (HIA) ac ymagwedd 'Iechyd ym Mhob Polisi' gael eu gweithredu'n ehangach.

BLWCH1: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)

"Mae Cymru'n wynebu nifer o heriau nawr ac yn y dyfodol, fel newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghydraddoldebau iechyd a swyddi a thwf. Er mwyn mynd i'r afael â'r rhain mae angen i ni gydweithio. Er mwyn rhoi ansawdd bywyd da i'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol **mae angen i ni feddwl am effaith hirdymor y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud**".

Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Yr Hanfodion

Ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, roedd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (2016)⁶ wedi cael ei gymeradwyo yn Sesiwn Lawn y Cynulliad Cenedlaethol a bydd hyn yn cryfhau rôl HIA yng Nghymru trwy ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru greu rheoliadau ynghylch yr amgylchiadau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gynnal HIA. Unwaith y daw'r rheoliadau statudol i rym (amcangyfrifir y bydd hynny yn 2018/19) bydd angen arfarnu ansawdd HIA wedi eu cwblhau yng Nghymru yn fwy systematig er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu gwneud i safon uchel. Mae angen i'r uchelgais hwn gael ei gefnogi gan niferoedd cynyddol o ymarferwyr a gwneuthurwyr polisiau o'r sector iechyd a sectorau eraill sydd yn fedrus yn cynnal a sicrhau ansawdd HIA sydd â mynediad i offer, hyfforddiant a chanllawiau o ansawdd uchel.

³ Y Swyddfa Gymreig. **Gwell Iechyd, Gwell Cymru**. 1998

⁴ Llywodraeth Cymru. **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**. 2015

⁵ Llywodraeth Cymru. **Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**. 2016

⁶ Llywodraeth Cymru. **Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**. 2016



Diben

Nod y ddogfen hon yw sefydlu fframwaith ymarferol clir i gefnogi a rhoi arweiniad i bobl a sefydliadau i adolygu ansawdd Asesu'r Effaith ar Iechyd.

Mae wedi ei anelu at gynulleidfa eang allai gynnwys gwneuthurwyr polisiâu, comisiynwyr, gwneuthurwyr penderfyniadau, ymgynghorwyr preifat, swyddogion cynllunio, arbenigwyr iechyd y cyhoedd ac iechyd yr amgylchedd.

Ei nod yw:

- Darparu fframwaith cyffredin a dealltwriaeth o HIA o ansawdd uchel
- Codi safon HIA sy'n cael eu cynnal yng Nghymru er mwyn iddynt gael eu gwneud yn gadarn
- Sicrhau bod y dystiolaeth a ddefnyddir i lywio penderfyniadau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant yn gadarn ac yn gynhwysol
- Sicrhau bod gan bobl gyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant trwy HIA o ansawdd uchel
- Cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau yn ymwneud â pholisïau, prosiectau, cynlluniau, ceisiadau cynllunio neu gomisiynu ac ailgyflinio gwasanaethau
- Sicrhau bod iechyd, llesiant ac anghydraddoldebau wedi cael eu hystyried mewn ffordd holistaidd, systematig a chadarn
- Cefnogi Llywodraeth Cymru a Chyrff Cyhoeddus dynodedig eraill i fodloni gofynion Bil Iechyd y Cyhoedd (2016) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2016)
- Cefnogi comisiynwyr, gwneuthurwyr polisiâu ac ymarferwyr Cymru gyfan i fodloni eu cyfrifoldebau i safon uchel pan fydd angen iddynt gynnal neu adolygu HIA trwy ddarparu fframwaith i'w harfarnu'n feirniadol
- Darparu adnoddau i gefnogi ymarferwyr a chomisiynwyr HIA rhyngwladol yn eu gwaith

Methodoleg

Mae'r Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd hwn ar gyfer HIA wedi cael ei ddatblygu dros gyfnod o ddwy flynedd sydd wedi galluogi'r fframwaith a'r meddylfryd y tu ôl iddo esblygu mewn ymateb i ddysgu'n seiliedig ar ymarfer, cyflwyno hyfforddiant mewn HIA, ffocws cynyddol ar lesiant ac effeithiau hirdymor polisi Llywodraeth Cymru, a chydweithredu gyda chomisiynwyr ac arbenigwyr yn y maes. Mae'r broses o ddatblygu wedi cynnwys:

- Adolygiad llenyddiaeth byr ar ansawdd ac effeithiolrwydd ymarfer asesu'r effaith ar iechyd
- Ymgysylltu a thrafodaethau gyda HIA ac ymarferwyr, academyddion a chynrychiolwyr Asesu Effaith eraill o ystod eang o sectorau h.y. iechyd a chynllunio'r amgylchedd
- Datblygu fframwaith adolygu ansawdd drafft yn seiliedig ar wybodaeth ac ymarfer HIA

- Profi ac adolygu'r fframwaith drafft gan ymarferwyr HIA, academyddion, ac ymarferwyr traws-sector mewn tri gweithdy ymgysylltu
- Prosesau Sicrhau Ansawdd a llywodraethu mewnol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae WHIASU wedi ymgysylltu ag ystod o ymarferwyr ac arbenigwyr HIA wrth ddatblygu'r fframwaith. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y meini prawf a gyflwynir yn cynrychioli consensws proffesiynol am gynnwys HIA cadarn. Mae WHIASU a'r cyfranogwyr wedi defnyddio profiad o asesu a nodi HIA a wnaed yn ystod hyfforddiant ac mae hefyd wedi defnyddio dysgu o offer a phrosesau Sicrhau Ansawdd eraill^{7 8}.

Cyhoeddir y fframwaith fel dogfen waith yr ydym yn disgwyl ei diwygio a'i diweddarau yng ngoleuni adborth a'r cyd-destun polisi ac ymchwil sy'n datblygu. I ddechrau, rydym yn cynnig diweddarau'r fframwaith yn 2020. Mae e-bost cyswllt wedi ei gynnwys ar ddiwedd y ddogfen hon i bobl i anfon eu hadborth ar gyfer meysydd ar gyfer gwella.

Asesu'r Effaith ar Iechyd: Trosolwg

Beth yw HIA?

Mae Asesu'r Effaith ar Iechyd yn broses sy'n ystyried sut y gallai gweithred arfaethedig effeithio ar iechyd a llesiant poblogaeth, boed yn bolisi, rhaglen, cynllun, prosiect neu newid i'r sefydliad neu gyflwyno gwasanaeth penodol.

Mae Consensws Gothenburg⁹ yn cael ei dderbyn yn helaeth fel diffiniad allweddol o Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA):

Mae asesu'r effaith ar iechyd yn golygu:

'cyfuniad o weithdrefnau, dulliau ac offer ar gyfer barnu polisi, rhaglen neu brosiect o ran ei effeithiau posibl ar iechyd poblogaeth, a dosbarthu'r effeithiau hynny o fewn y boblogaeth'

Nod asesu'r effaith ar iechyd yw:

- Atal niwed i iechyd a llesiant
- Cynyddu'r buddion i iechyd a llesiant
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd

Mae'n gwneud hyn trwy ddarparu asesiad cadarn o effeithiau a cheisio cynyddu'r budd i iechyd a lleihau canlyniadau posibl nas bwriadwyd yn sgil penderfyniadau polisi a allai arwain at berygl i iechyd a llesiant.

⁷ Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (IEMA). **Cynllun Marc Ansawdd**. IEMA, 2011


⁸ Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG (CEHR). **Pecyn Cymorth Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb** CEHR, 2012

⁹ Canolfan Polisi Iechyd Ewropeaidd. **Health impact assessment: main concepts and suggested approach**. Papur consensws Gothenburg. Brwsel: Canolfan Polisi Iechyd Ewropeaidd WHO. 1999

Mae penderfynyddion ehangach iechyd, fel y model a ddatblygwyd gan Barton a Grant (2006)¹⁰ (gweler Ffigur 1 isod) yn darparu'r fframwaith asesu eang ar gyfer HIA. Yn HIA, mae'r asesiad yn canolbwyntio gyntaf ar y ffordd y gallai'r prosiect neu'r polisi arfaethedig effeithio ar benderfynyddion ehangach iechyd. Yn ail, nod HIA yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac felly canolbwyntio ar ddosbarthiad yr effeithiau posibl mewn poblogaeth(au) penodol. Mae HIA yn asesu'r ffordd y gallai prosiect neu bolisi arfaethedig effeithio ar grwpiau gwahanol o bobl. Dylid talu sylw penodol mewn HIA i unrhyw grwpiau allai brofi anghydraddoldebau ac annhegwch iechyd. Mae HIA yn seiliedig ar safbwynt holistaidd o iechyd a llesiant, felly dylai HIA ystyried effeithiau corfforol, meddyliol, cymdeithasol a chymunedol.

Mae WHIASU wedi cyhoeddi [canllaw ymarferol](#) i gynnal HIA¹¹ sydd yn rhoi mwy o wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddir mewn HIA. Mae'r canllaw yn rhoi cyfeirbwynt ar gyfer y disgwyliadau o ran sut y dylid cynnal HIA o ansawdd uchel a'r ymagwedd tuag at HIA yng Nghymru.

Ffigur 1: Barton a Grant (2006). Y Map Iechyd



Pam mae angen Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd ar gyfer HIA?

Yng Nghymru, mae ymarfer HIA wedi bod yn datblygu dros 15 mlynedd wedi ei gefnogi trwy sefydlu Uned Gymorth HIA neilltuoel yn 2004¹². Mae Cymru wedi ennill parch rhyngwladol ym maes HIA yn sgil ffocws ar ddulliau cyfranogol, anghydraddoldebau iechyd, gweledigaeth

¹⁰ Barton, H. a Grant, M. A health map for the local human habitat. **The Journal for the Royal Society for the Promotion of Health**, 126 (6). tud. 252-253. 2006

¹¹ Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru. Ibid. 2012a.

¹² Gwefan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru. www.whiasu.wales.nhs.uk (defnyddiwyd ddiwethaf 20/3/2017)

holistaidd o iechyd, ymgysylltu traws-sector, cymorth ar gyfer HIA sy'n cael ei arwain yn gymunedol, a gallu i lywio polisi ar lefel leol a chenedlaethol^{13 14 15 16} trwy ddefnyddio HIA Cyflym pragmatig. Nod y Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd hwn yw sicrhau bod ymarfer HIA yng Nghymru'n parhau i adlewyrchu'r gwerthoedd, y safonau a'r ymagweddau pwysig sydd wedi ategu datblygiad ymarfer HIA hyd yn hyn.

Yn ôl yr Oxford English Dictionary caiff 'Ansawdd' ei ddiffinio fel '*safon rhywbeth sy'n cael ei fesur yn erbyn pethau eraill o'r un math; graddau rhagoriaeth rhywbeth*' a '*rhagoriaeth gyffredinol a lefel safonol*'¹⁷. Diffinnir 'Sicrwydd ansawdd' fel '*cynnal lefel ddymunol o ansawdd mewn gwasanaeth neu gynnyrch, yn arbennig trwy roi sylw i bob cyfnod o'r broses o gyflenwi neu gynhyrchu*'¹⁸.

Mae'n hanfodol i hygyrddedd ac effeithiolrwydd HIA ei fod yn cael ei gymhwyso mewn ffordd gyson a chadarn ac i safon foddhaol. Gellir sicrhau hyn trwy nifer o ddulliau:

- Darparu hyfforddiant, cyngor a chymorth o ansawdd uchel
- Cadw at ganllawiau arfer gorau yn barhaus e.e. 'Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol'¹⁹
- Y defnydd o offer adolygu sicrwydd ansawdd ar gyfer cwblhau adroddiadau HIA
- Darparu tystiolaeth, adnoddau, astudiaethau achos, ac e-ddysgu²⁰
- Cyfleoedd i rannu a datblygu arfer gorau mewn gweithdai a chynadleddau
- Cyfleoedd i werthuso effeithiolrwydd HIA

Heb sicrwydd ansawdd, efallai na fydd HIA yn cyflawni eu potensial i ddylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau ar gyfer iechyd a llesiant gwell. Gall cyfyngiadau o ran adnoddau mewn cyrff cyhoeddus gyfyngu ar ansawdd uchel HIA a cheir posibilrwydd y gallai HIA fod yn ymarfer 'blwch ticio' gweithdrefnol yn hytrach na darparu tystiolaeth o ansawdd uchel i lywio penderfyniadau hirdymor ac ataliol gwell i wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau yn y boblogaeth.

Mae WHIASU yn darparu hyfforddiant, cyngor a chymorth yn rheolaidd i ymarferwyr ar draws llywodraeth leol, iechyd a llesiant, cynllunio a sectorau eraill. Mae WHIASU, Cymdeithas Ryngwladol Asesu Effaith, Sefydliad Iechyd y Byd a gwefannau eraill yn rhoi mynediad i astudiaethau achos, adnoddau a thystiolaeth ar HIA²¹. Mae safonau arfer gorau rhyngwladol a

¹³ Llywodraeth Cynulliad Cymru. **Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru** (WelTAG). 2008

¹⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru. **Nodyn Cyngor Technegol Mwynau** (MTAN) 2: Glo. 2009

¹⁵ Llywodraeth Cymru. **Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 9**. Pennod 4: Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd. 2016

¹⁶ GIG Cymru. **NHS Wales Infrastructure Investment Guidance**. Mawrth 2015

¹⁷ Oxford English Dictionary.

https://www.google.co.uk/search?client=safari&channel=ipad_bm&site=&source=hp&ei=QizSWKL2NsWRaJTmt9AL&q=definition+of+quality&oq=definition+of+qua&gs_l=mobile-gws-hp..1.0.015.2793.8566.0.9675.18.18.0.6.6.0.246.2512.5j11j2.18.0....0...1.1.64.mobile-gws-hp..1.17.1523.3..41j46j0i131k1j0i46k1j0i70k1.PThX-3RQIRo#dobs=quality (defnyddiwyd ddiwethaf 21/3/2017)

¹⁸ Gwefan Oxford English Dictionary. <https://en.oxforddictionaries.com/definition/us/quality> (defnyddiwyd ddiwethaf 21/3/2017)

¹⁹ Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru. *ibid.* 2012a.

²⁰ Gwefan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru. www.whiasu.wales.nhs.uk (defnyddiwyd ddiwethaf 20/3/2017)

²¹ Gweler Adran 10 am fwy o fanylion am y sefydliadau a'r gwefannau hyn.

chenedlaethol yn bodoli ar gyfer cynnal ac adrodd ar Asesu Effaith ar Iechyd^{22 23 24}. Mae'r rhain yn rhoi arweiniad defnyddiol i'r rheiny sydd yn cynnal HIA. Fodd bynnag, nid yw'r safonau hyn yn rhoi canllawiau ar adolygu prosesau ac adroddiadau terfynol HIA i sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn cydymffurfio ag arfer gorau.

Er bod nifer o offer ar gael i arfarnu papurau academiaidd a chlinigol yn feirniadol²⁵, nid oes llawer o offer yn bodoli i adolygu ansawdd IA neu HIA^{26 27}. Mae'r rheiny sydd ar gael naill ai ddim yn benodol i HIA^{28 29 30} neu maent yn canolbwyntio ar fath penodol o brosiect (e.e. mae Ben Cave a'i swyddogion cyswllt wedi datblygu pecyn adolygu ar gyfer adroddiadau HIA yn ymwneud â phrosiectau datblygu yn unig³¹). Felly, mae angen fframwaith cynhwysfawr sydd yn galluogi HIA i gael ei raddio ac sydd yn addas ar gyfer ystod ehangach o HIA, yn cynnwys y rheiny sydd yn asesu polisiâu, prosiectau, cynlluniau, gwasanaethau, datblygiadau a rhaglenni.

Bydd ffurf wedi ei safoni o sicrhau ansawdd ar gyfer HIA yn rhoi mwy o eglurder yn ymwneud â'r meini prawf ar gyfer cynnal a chwblhau HIA yng Nghymru. Bydd o gymorth i sicrhau bod yr HIA yn cael ei gynnal mewn ffordd amlddisgyblaethol a rhyng-sectoraidd sydd yn ystyried cydestun cyfreithiol, polisi, economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae HIA yn cael eu cychwyn a'u cynnal mewn nifer o ffyrdd. Gall sefydliadau gynnal eu HIA eu hunain yn fewnol; ymgysylltu sefydliad partner i gwblhau HIA ar eu rhan, neu gallant gomisiynu asiantaeth allanol. Os oes gan asiantaethau sydd wedi eu comisiynu i gynnal HIA fuddiannau ariannol neu eraill yn y prosiect sydd yn destun yr HIA, gall fod peryg o fias a allai arwain at broses ac adrodd anghytbwys. Mae'r fframwaith gwerth sydd yn arwain ymarfer HIA (gweler Ffigur 2 isod) yn golygu y dylid cyflwyno data mewn ffordd dryloyw, annibynnol a chytbwys. Mae'r fframwaith adolygu hwn yn darparu methodoleg i asesu HIA yn feirniadol ac yn ddiduedd a thynnu sylw at unrhyw faterion posibl o fias yn y dulliau asesu neu adrodd³².

²² Bhatia R, Farhang L, Heller J, Lee M, Orenstein M, Richardson M and Wernham A. **Minimum Elements and Practice Standards for Health Impact Assessment**, Fersiwn 3. 2014

²³ Harris, P., Harris-Roxas, B., Harris, E., & Kemp, L. **Health Impact Assessment: A Practical Guide**, Sydney, 2007: Centre for Health Equity Training, Research and Evaluation (CHETRE). Rhan o'r UNSW Research Centre for Primary Health Care and Equity, UNSW. (defnyddiwyd ddiwethaf 20/3/2017)
http://www.globalgovernancewatch.org/docLib/20140206_Health_Impact_Assessment_A_Practical_Guide.pdf (defnyddiwyd ddiwethaf 20/3/2017)

²⁴ International Association of Impact Assessment (IAIA). **Health Impact Assessment; International best practice principles**. 2006. http://activelivingresearch.org/files/IAIA_HIABestPractice_0.pdf (last accessed 20.3.2017)

²⁵ <http://www.casp-uk.net/checklists> (defnyddiwyd ddiwethaf 21/3/2017)

²⁶ WHIASU. **Asesu Ansawdd adroddiad HIA**. WHIASU, 2012b

²⁷ Fredsgaard M.W. Cave B. Bond A. **A review package for Health Impact Assessment reports of development projects**. Leeds, 2009. <https://www.scams.gov.uk/sites/default/files/documents/HIA%20Review%20Package%20-%20Ben%20Cave%20Assoc.pdf> (defnyddiwyd ddiwethaf 20/3/2017)

²⁸ Institute of Environmental Management and Assessment . **Environmental Impact Assessment Guide to: Delivering Quality Development**. 2015

²⁹ Institute of Environmental Management and Assessment . **Quality Mark Scheme**. 2011

³⁰ Institute of Environmental Management and Assessment . **Strategic Environmental Assessment (SEA) Environmental Report Review Criteria**. 2006

³¹ Fredsgaard M.W. Cave B. Bond A. Ibid . 2009

³² Krieger N. et al. Assessing health impact assessment: multidisciplinary and international perspectives. **J Epidemiol Community Health** 57:659–662. 2003. <http://jech.bmj.com/content/57/9/659.full.pdf+html> (defnyddiwyd ddiwethaf 20/3/2017)

Ffigur 2: Gwerthoedd HIA³³

Agored	Tryloyw	Moesegol
Democrataidd	Gwerthoedd HIA	Teg
Cynaliadwy	Cyfranogol	Cadarn

Canllawiau ar Ddefnyddio'r Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd HIA hwn

Pryd i ddefnyddio'r fframwaith hwn?

Ceir ystod eang o gyd-destunau lle gellid cymhwyso'r fframwaith hwn ac nid ydym yn bwriadu bod yn gyfarwyddol am ei ddefnydd. Fodd bynnag, yma rydym yn rhoi rhai enghreifftiau o'n profiad ymarfer ynghylch pryd y gallai'r offeryn fod yn berthnasol:

- Mae aelodau o'r gymuned eisiau asesiad annibynnol o ganfyddiadau a dulliau HIA
- Mae gwneuthurwyr penderfyniadau e.e. swyddogion cynllunio, eisiau bod yn hyderus o ran canfyddiadau HIA sy'n ymwneud â datblygiad lleol neu bolisi a ffurfio safbwynt arno
- Mae comisiynwyr HIA yn dymuno dilysu bod yr HIA y gwnaethant gais amdano wedi bodloni meini prawf arfer gorau
- Mae ymarferydd HIA eisiau adolygiad cymheiriaid o HIA
- Mae angen meini prawf ar addysgwyr ar gyfer seilio casgliadau am asesiadau HIA

³³ WHIASU . ibid. 2012a



Pwy ddylai gynnal adolygiad?

Rydym yn cynghori y dylid cynnal adroddiad HIA gan o leiaf dau berson sydd yn annibynnol ar awduron yr HIA, sydd eu dau â dealltwriaeth dda o ddulliau a phroses HIA, a gallu i arfarnu adroddiadau ymchwil yn feirniadol. Nid oes angen i adolygwyr fod yn “arbenigwyr” mewn HIA.

Unwaith y maent wedi arfarnu'r HIA yn unigol, dylent drafod eu canfyddiadau a dod i gytundeb ar unrhyw adborth i'w roi i'r comisiynydd, gwneuthurwr penderfyniadau, neu sefydliad sydd ei angen.

Mae'r fframwaith wedi ei anelu at gynulleidfa eang ar draws sectorau yn cynnwys gwneuthurwyr polisïau, comisiynwyr, gwneuthurwr penderfyniadau, ymgynghorwyr preifat, swyddogion cynllunio, arbenigwyr iechyd y cyhoedd ac iechyd yr amgylchedd, cynghorwyr lleol a chynrychiolwyr cymunedol.

Sut i ddefnyddio'r Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd HIA

Negeseuon allweddol

Diben yr adolygiad yw cynnal dadansoddiad beirniadol o'r HIA yn y cyd-destun y'u cynhaliwyd.

Bydd pob HIA yn unigryw i gyd-destun, cynnig a phrosesau gwneud penderfyniadau penodol.

Dylid defnyddio'r meini prawf fel offeryn ar gyfer y broses o ddadansoddi, adolygu a thrafod yn feirniadol yn hytrach na system sgorio. Fodd bynnag, dylai'r graddio wneud rhoi adborth yn haws.

Canlyniad y broses adolygu ddylai fod bod gan yr adolygydd(wyr) ddealltwriaeth well o'r HIA, ansawdd y broses HIA a'r adroddiad, a faint o hyder y gallant ei roi yn y canfyddiadau.

Gallant wedyn ffurfio safbwynt a rhoi adborth cynhwysfawr a chlr.

1. Cyn i chi ddechrau

Mae adolygu ansawdd HIA yn allweddol i gael dealltwriaeth glir o nodau ac amcanion yr HIA, pam y cafodd ei gomisiynu a pha fath o benderfyniad yr oedd wedi ei ddylunio i'w ddylanwadu. Bydd angen mathau gwahanol o dystiolaeth ar brosesau neu werthusiadau penderfyniadau neu

gynllunio prosiectau. Gallant hefyd fod â disgwyliadau amrywiol yn ymwneud ag ymgynghori neu ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd angen tystiolaeth feintiol ar rai HIA yn ymwneud â chanlyniadau iechyd posibl e.e. effaith ffordd newydd ar ansawdd aer neu ddangosyddion canlyniadau iechyd clinigol. Mewn achosion eraill, gall tystiolaeth ansoddol o aelodau cymunedol (sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig) neu gan randdeiliaid perthnasol a phriodol eraill, fod yn bwysig. Un o gryfderau HIA yw'r integreiddio a'r gwerth sy'n cael ei roi ar fathau gwahanol o dystiolaeth ac ymagwedd methodoleg gymysg.


Bydd y rhan fwyaf o HIA yn wynebu rhai cyfyngiadau yn ymwneud â pha dystiolaeth y mae'n ymarferol i'w chael o fewn cyfnod amser neu gyllideb benodol.

Eich gwaith fel adolygydd yw ffurfio safbwynt mewn pedwar maes allweddol:

1. Bod yr HIA wedi cael ei wneud mewn ffordd sydd yn dilyn canllawiau cydnabyddedig
2. Eich bod yn hyderus o ran ansawdd yr HIA a gynhaliwyd a'r adroddiad sy'n dogfennu'r broses a'r canfyddiadau
3. Bod y dystiolaeth a gasglwyd yn ddigon cadarn i gyfiawnhau'r effeithiau a nodwyd a'r argymhellion a wnaed, a'i fod hefyd yn briodol ar gyfer natur, graddfa, cwmpas, arwyddocâd a difrifoldeb effeithiau posibl ar iechyd a llesiant
4. Bod yr HIA wedi cael ei gynllunio a'i gynnal mewn ffordd sy'n bodloni anghenion y broses o wneud penderfyniadau neu reoli'r prosiect a'i fod yn debygol o wneud gwahaniaeth

2. Sut i fynd ati i gynnal eich adolygiad

- Diben yr adolygiad yw cynnal dadansoddiad beirniadol o'r HIA yn y cyd-destun y'i cynhaliwyd
- Canlyniad y broses adolygu ddylai fod bod gan yr adolygydd(wyr) ddealltwriaeth well o'r HIA ac ansawdd y broses HIA a'r adroddiad. Mae hyn i gydnabod y bydd pob HIA yn unigryw i gyd-destun, cynnig a phrosesau gwneud penderfyniadau penodol. Bydd yr adolygydd(wyr) yn gallu ffurfio safbwynt ar yr HIA a gwblhawyd a lefel yr ymddiriedaeth a'r hyder y gallant ei roi yn y cynnwys, y canfyddiadau a'r broses ac unrhyw adborth y maent yn ei ddarparu
- Defnyddir y meini prawf fel offeryn ar gyfer y dadansoddiad beirniadol hwn yn hytrach na system sgorio
- Dylid cymhwyso'r meini prawf yn gymesur yn unol â graddfa, cymhlethdod a dwyster posibl y cynnig a'r effeithiau posibl ar iechyd
- Ceir nodiadau esboniadol ategol ar gyfer meini prawf dethol sy'n gweithredu fel ychwanegiad a chanllaw i egluro neu i roi mwy o fanylion
- Mae'r fframwaith wedi ei anelu at adolygu ansawdd yr adroddiad a'r broses y mae'r adroddiad yn ei disgrifio

- 
- Unwaith y mae'r ddau adolygydd wedi cwblhau eu hasesiad unigol o'r HIA, dylent rannu eu canfyddiadau a dod i gytundeb ynghylch canlyniad yr adolygiad
 - Gall crynodeb adolygu cytûn wedyn gael ei baratoi ar gyfer y rheiny sy'n gwneud cais am yr adolygiad

3. Strwythur Graddio

Dylid rhoi gradd i bob maen prawf. **Ni** ddylai graddau fod ar gyfartaledd ar draws adran am y gallai hyn guddio cryfderau neu ddiffygion pwysig.

- **D:Da**
- **C:** Angen **cryfhau** – gallai hyn fod ar dair lefel:
 1. Angen **Eglurhad**
 2. Angen **Mân** ddiwygiadau
 3. Angen diwygiadau **Mawr**
- **A:** Annigonol

Dylid gwneud sylwadau yn erbyn pob maen prawf, a rhoi rheswm dros y radd.

4. Beth i'w wneud gyda'r canfyddiadau

Gan ddefnyddio'r sylwadau a wnaed yn erbyn pob maen prawf a'r strwythur graddio, bydd yr adolygwyr yn gallu rhoi adborth clir, croyw i'r rheiny sy'n gwneud cais am yr adolygiad, gan egluro ble mae ceisiadau am eglurhad a/neu ddiwygio a beth yw cryfderau a gwendidau'r HIA.

Fframwaith Sicrhau Ansawdd yr HIA a Nodiadau Esboniadol

Mae adran 'Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd HIA WHIASU – Matrics Adolygu' yn cynnwys yr holl feini prawf a'r paramedrau disgwylidig y bydd angen i HIA cadarn ac unrhyw adroddiad cysylltiedig eu cynnwys. Caiff ei ategu gan set o 'Nodiadau Esboniadol' sydd yn rhoi gwybodaeth estynedig ac arweiniad i gefnogi adolygwyr ac ymarferwyr i ddeall rhai o'r meini prawf a ddiffinnir yn y ddogfen Matrics Adolygu ei hun.

Mae'r Matrics Adolygu wedi ei gynnwys fel Atodiad Un ac mae'r Nodiadau Esboniadol wedi eu cynnwys fel Atodiad Dau. Mae hyn i hwyluso eu defnydd fel adnoddau annibynnol.

Adnoddau

Am fwy o wybodaeth a dolenni i adnoddau Asesu Effaith ar Iechyd a/neu offer arfarnu beirniadol gweler isod:

Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru. Darparu cyngor, hyfforddiant. Canllaw ac adnoddau ar gyfer ymarferwyr a gwneuthurwyr polisiau yng Nghymru. Ar gael yn: www.whiasu.wales.nhs.uk . Mae hyn yn cynnwys rhestr wirio fer 'Asesu Ansawdd Adroddiad HIA' - <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=522&id=196293>

[Sefydliad Iechyd y Byd](http://www.who.int/hia/en/) (WHO). Rhoi mynediad i astudiaethau achos, offer, ffynonellau tystiolaeth ar y berthynas rhwng penderfynyddion allweddol iechyd a gwybodaeth arall ar ddatblygiadau cyfredol. Ar gael yn: <http://www.who.int/hia/en/>

[Cymdeithas Ryngwladol Asesu Effaith](http://www.iaia.org/) (IAIA). Darparu cymorth a fforwm ar gyfer trafodaeth a syniadau ar gyfer unigolion a sefydliadau sydd yn gysylltiedig â mathau gwahanol o dystiolaeth asesu effaith ar gysylltiadau rhwng penderfynyddion iechyd. Mae'r safleoedd hyn yn rhoi gwybodaeth am y cysylltiadau rhwng penderfynyddion a meysydd polisi ac iechyd yn ogystal â'r hyn sydd yn hysbys am effaith ymyriadau penodol ar iechyd. Ar gael yn: <http://www.iaia.org/>

[Consortium Rhyngwladol Asesu Effaith ar Iechyd](http://www.liv.ac.uk/ihia/) (IMPACT). Cronfa ddata o adnoddau a mynediad i Ganllawiau Glannau Merswy ar HIA. Ar gael yn: <http://www.liv.ac.uk/ihia/>

[HIA Gateway](http://www.apho.org.uk/default.aspx?QN=P_HIA), Public Health England. Gwybodaeth, adnoddau, astudiaethau achos, ffynonellau tystiolaeth a rhwydweithiau i gefnogi'r defnydd o HIA. Ar gael yn: http://www.apho.org.uk/default.aspx?QN=P_HIA

Fredsgaard MW, Cave B, Bond A. A review package for Health Impact Assessment reports of development projects. Leeds, 2009. Ar gael yn: <https://www.scams.gov.uk/sites/default/files/documents/HIA%20Review%20Package%20-%20Ben%20Cave%20Assoc.pdf>

Mindell et al. [A Guide to Reviewing Evidence for use in Health Impact Assessment](http://discovery.ucl.ac.uk/122644/), Arsyllfa Iechyd Llundain, 2005. Ar gael yn: <http://discovery.ucl.ac.uk/122644/>

Rhaglen Sgiliau Arfarnu Beirniadol y DU. Rhestrau Gwirio CASP. 2013. Ar gael yn: <http://www.casp-uk.net/checklists>

Public Health Resource Unit. Ten questions to help you make sense of reviews. Critical Appraisal Skills Programme (CASP) 2006. Lloegr. Ar gael yn www.phru.nhs.uk/Doc Links/S.Reviews%20Appraisal%20Tool.pdf

Public Health Resource Unit. Ten questions to help you make sense of qualitative research. Critical Appraisal Skills Programme (CASP) 2006. Lloegr. Ar gael yn www.phru.nhs.uk/Doc Links/Qualitative%20Appraisal%20Tool.pdf

Institute of Environmental Management and Assessment. Strategic Environmental Assessment (SEA) Environmental Report Review Criteria. 2006. Ar gael yn: www.iema.net



Public Health England. Health and Environmental Impact Assessment: A Briefing for Public Health Teams in England 2017. England. Available at:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/629207/Health_and_environmental_impact_assessment.pdf

Adborth

Rydym yn bwriadu diweddarau'r Fframwaith a'r ddogfen Adolygu yn 2019. Os oes gennych unrhyw adborth am eich defnydd ohono yn ymarferol byddem wrth ein bodd yn ei dderbyn. Gallwch gysylltu â WHIASU yn whiasu@wales.nhs.uk a thrwy wefan WHIASU – www.whiasu.wales.nhs.uk



Atodiad Un – Matrics Adolygu

	Meini Prawf	Gradd: Da (D) Angen Cryfhau (C) Annigonol (A)	Sylwadau • Beth sydd ar goll? • A oes unrhyw wendidau? • Beth sy'n ddefnyddiol? • Beth sydd wedi ei gwblhau'n dda?
1	Adran 1: Gwybodaeth am y prosiect, polisi, cynllun neu gynnig		
1.1	Ceir disgrifiad clir o'r prosiect neu'r cynllun sy'n cael ei asesu yn cynnwys: • Nodau ac amcanion • Perthynas sefydliadol (e.e. pwy sydd yn "berchen" ar y prosiect? A oes unrhyw bartneriaethau allweddol?) • O ble daw'r cyllid ar gyfer y prosiect a'r HIA • Cyd-destun 'safle' y prosiect neu'r cynllun (e.e. daearyddol, poblogaeth, y lleoliad ffisegol) • Graddfeydd amser (gweler Nodyn Esboniadol) • Cysylltiadau neu bellter i brosiectau cyfagos os yw'n berthnasol (am y gall fod effeithiau cronol) (gweler Nodyn Esboniadol) • Y cyd-destun polisi cenedlaethol a/neu leol		

2	Adran 2: Methodoleg: A yw'n HIA? A yw wedi dilyn methodoleg HIA cydnabyddedig?		
2.1	Ceir esboniad clir o'r fethodoleg HIA a ddefnyddir yn cynnwys: • Sgrinio • Cwmpasu – unrhyw derfynau daearyddol, poblogaeth neu arall, a sut a pham y cafodd y rhain eu cytuno. • Asesiad/arfarniad • Argymhellion ac adrodd Gweler Nodyn Esboniadol		
2.2	Mae'r HIA wedi ei gynllunio a'i amseru i lywio'r prosesau gwneud penderfyniadau/rheoli prosiect perthnasol		
2.3	Mae'r nodau a'r amcanion ar gyfer yr HIA yn glir ac yn berthnasol. Gweler Nodyn Esboniadol		
2.4	Mae'r HIA wedi cael ei ffurfio o amgylch diffiniad o iechyd a llesiant sydd yn holistaidd (corfforol a meddyliol) ac yn cynnwys penderfynyddion cymdeithasol (ehangach) iechyd		
2.5	Mae'r offer asesu/fframweithiau/rhestrau gwirio a ddefnyddir wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ac maent yn cynnwys iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol ynghyd â phenderfynyddion ehangach iechyd.		

2.6	Mae'r broses sgrinio a chwmpasu yn nodi'r bobl a'r grwpiau agored i niwed y gallai'r cynnig effeithio arnynt a sut y byddant yn cael eu hymgysylltu yn y broses HIA		
2.7	Mae'r adroddiad yn nodi'r holl grwpiau rhanddeiliaid sydd yn berthnasol i wneud asesiad o'r effaith ar iechyd ar gyfer y prosiect hwn a sut yr oeddent i gael eu hymgysylltu yn yr HIA Gweler Nodyn Esboniadol		
2.8	Ceir esboniad clir o'r rolau a'r cyfrifoldebau yn yr HIA a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli. Gweler Nodyn Esboniadol		

3	Adran 3: Tystiolaeth: A yw'r dystiolaeth a ddefnyddir i nodi ac asesu effeithiau yn gadarn?		
3.1	Mae adroddiad yr HIA yn cynnwys y mathau allweddol o dystiolaeth sy'n ofynnol. 1. Proffil iechyd cymunedol/poblogaeth a data economaidd-gymdeithasol 2. Adolygiad llenyddiaeth/tystiolaeth 3. Safbwynt a phrofiad rhanddeiliaid 4. Data technegol (os yw'n berthnasol) h.y. ystadegau ansawdd aer neu ragolygon canlyniadau iechyd		
3.2	Proffil iechyd cymunedol /poblogaeth (ansoddol a meintiol). • Dylai hyn roi digon o wybodaeth am iechyd a llesiant corfforol a meddyliol a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd ar gyfer poblogaethau wedi eu heffeithio ac unrhyw grwpiau agored i niwed a nodwyd er mwyn asesu effeithiau posibl. • Dylai'r proffil gynnwys dangosyddion iechyd a llesiant corfforol a meddyliol sy'n berthnasol i'r prosiect sy'n cael ei asesu. • Dylai fod naratif sy'n dehongli'r data a gasglwyd yng nghyd-destun yr HIA. Nid yw rhestr o dablau a data yn ddigonol. Gweler Nodyn Esboniadol		

3.3	Adolygiad llenyddiaeth/tystiolaeth. • Mae'r strategaeth chwilio yn glir • Mae'r fethodoleg a'r ffynonellau a ddefnyddir yn berthnasol i'r prosiect a graddfa'r HIA. • Mae ansawdd a dyfnder y dystiolaeth yn ddigonol i lywio asesiad effeithiau tebygol • Ceir rhywfaint o asesu beirniadol o'r llenyddiaeth a ddefnyddir Gweler Nodyn Esboniadol		
3.4	Gwybodaeth a phrofiad rhanddeiliaid (ansoddol). • Roedd y dulliau ymgysylltu yn briodol a chafodd eu heffeithiolrwydd ei werthuso. • Caiff ystod y rhanddeiliaid a faint o bobl o grwpiau gwahanol wnaeth ymgysylltu ei gofnodi. Gweler Nodyn Esboniadol		
3.5	Data technegol Mae'r HIA yn defnyddio ffynonellau data cadarn ar ansawdd aer, sŵn, trafnidiaeth neu o ddisgyblaethau amgylcheddol, economaidd neu dechnegol allweddol eraill lle y bo'n berthnasol i'r cynnig a'r effeithiau posibl.		
3.6	Caiff unrhyw gyfyngiadau o'r dystiolaeth a gasglwyd eu hamlygu a cheir rhesymeg.		

4	Adran 4: Arfarniad, Asesiad a nodi effeithiau		
4.1	Caiff unrhyw effeithiau cadarnhaol neu gyfleoedd i gynyddu iechyd a llesiant eu nodi a chyflwynir y ffordd y cawsant eu nodi yn glir. Gweler Nodyn Esboniadol		
4.2	Caiff unrhyw effeithiau negyddol, bylchau neu ganlyniadau nas bwriadwyd eu nodi a chyflwynir y ffordd y cawsant eu cyflwyno yn glir. Gweler Nodyn Esboniadol		
4.3	Ceir ymagwedd gytbwys i'r ddealltwriaeth a nodi effeithiau h.y. dim tanadrodd effeithiau negyddol na gorddatgan effeithiau cadarnhaol Gweler Nodyn Esboniadol		
4.4	Caiff effeithiau cronol posibl polisïau neu brosiectau cysylltiedig yn yr ardal eu hystyried. Gweler Nodyn Esboniadol		

4.5	Caiff pob ffynhonnell tystiolaeth ei thrionglu a'i defnyddio i lywio'r asesiad a nodi effeithiau. Gweler Nodyn Esboniadol		
4.6	Mae'n glir sut y caiff pob effaith a nodir ei gofnodi gan y dystiolaeth a gasglwyd. Caiff cryfder a ffynonellau'r dystiolaeth ar gyfer bob effaith eu cyfathrebu'n glir. Gweler Nodyn Esboniadol		
4.7	Mae'n amlwg ar bwy y bydd yn effeithio a chaiff unrhyw anghydraddoldebau posibl o ran dosbarthiad effeithiau eu nodi. Gweler Nodyn Esboniadol		
4.8	Mae graddau'r tebygolrwydd a difrifoldeb effeithiau penodol yn cael eu neilltuo Gweler Nodyn Esboniadol		
4.9	A yw cwmpas yr HIA wedi cael ei gyflawni? Gweler Nodyn Esboniadol		
4.10	Darperir crynodeb o'r arfarniad/asesiad.		

5	Adran 5: Argymhellion, Casgliadau a Monitro		
5.1	Ceir cyswllt clir rhwng y dystiolaeth a gasglwyd, yr asesiad a'r argymhellion.		
5.2	Dylid bod esboniad o'r ffordd y caiff y canfyddiadau eu defnyddio i lywio'r prosesau gwneud penderfyniadau yn y prosiect/rhaglen.		
5.3	Dylai'r argymhellion: • Fod yn benodol, mesuradwy, realistig ac yn gaeth i amser • Fod yn amlwg yn gysylltiedig â'r effeithiau a nodwyd • Atal neu leddfu effeithiau negyddol posibl neu ganlyniadau nas bwriadwyd. • Cynyddu buddion a chyfleoedd o effeithiau cadarnhaol. • Bod yn glir ynghylch pwy y disgwylir iddynt weithredu		
5.4	Os yw argymhellion yn cael eu blaenoriaethu dylid nodi'r rhesymeg dros hyn yn glir		

5.5	Arfer gorau: mae proses wedi ei sefydlu ar gyfer monitro gweithredu argymhellion ac mae dangosyddion wedi cael eu nodi i fonitro effeithiau allweddol iechyd a llesiant		
5.6	Mae cynlluniau ar gyfer lledaenu'r adroddiad a chyfathrebu'r canfyddiadau wedi cael eu nodi.		
5.7	Mae'r gynulleidfa a fwriadwyd ar gyfer yr adroddiad yn glir ac mae'r iaith, y wybodaeth a chywair yr adroddiad yn addas ar gyfer y gynulleidfa hon.		
5.8	Mae strwythur yr adroddiad yn glir ac mae adrannau perthnasol a rhesymegol. Gweler Nodyn Esboniadol		
5.9	Mae'r holl atodiadau neu'r dogfennau ychwanegol sydd yn cynnwys data, tystiolaeth, cofnodion a manylion methodoleg wedi eu cyfeirio/trawsgyfeirio ac yn hawdd eu canfod a chael mynediad iddynt.		
5.10	Mae'r holl ffynonellau wedi eu cyfeirio'n glir ac yn gywir.		
5.11	Mae unrhyw dermau technegol a ddefnyddir yn yr HIA wedi eu hesbonio yn y ddogfen neu eirfa.		

5.12	Arfer gorau: Ceir crynodeb gweithredol neu grynodedb nad yw'n dechnegol yn crynhoi'r negeseuon allweddol, yr argymhellion a'r dystiolaeth ategol Gweler Nodyn Esboniadol		
5.13	Meini prawf ychwanegol ar gyfer prosiectau o fath cyfalaf/adeiladu/datblygu: A oes cynllun arfaethedig ar gyfer monitro gweithredu'r argymhellion a llinell atebolrwydd glir ar gyfer adrodd ynghylch canlyniadau parhaus? Gallai hyn gynnwys: • Nodi dangosyddion ar gyfer mesur effaith barhaus ar iechyd a llesiant. h.y allyriadau a lefelau sŵn • Cynllun Rheoli Iechyd		
6	Adran 6: Egwyddorion a Llywodraethu: A yw wedi cael ei gynnal mewn ffordd sy'n bodloni egwyddorion a gwerthoedd HIA?		
6.1	Tegwch – Mae ffocws ar gyfrannu at gyflawni tegwch a lleihau anghydraddoldebau yn cael ei ystyried trwy gydol yr HIA Gweler Nodyn Esboniadol		

6.2	Tryloyw ac agored – Mae llywodraethu'r HIA yn glir ac yn briodol er mwyn sicrhau bod yr HIA wedi cael ei gynnal mewn ffordd effeithiol a chytbwys. Gweler Nodyn Esboniadol		
6.3	Democrataidd – Mae hwn yn pwysleisio hawliau pobl i gymryd rhan mewn penderfyniadau mawr sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r rhanddeiliaid sydd wedi eu hymgysylltu yn adlewyrchu amrywiaeth pawb sy'n debygol o fod wedi eu heffeithio gan y cynnig, yn gysylltiedig â datblygu'r cynnig neu'n gysylltiedig â gweithredu'r cynnig. Gweler Nodyn Esboniadol		
6.4	Cynaliadwy – Nod yr HIA oedd cynyddu'r buddion/effeithiau o ran iechyd a llesiant a lleihau canlyniadau nas bwriadwyd trwy ystyried effeithiau tymor byr a hirdymor Gweler Nodyn Esboniadol		

6.5	Cyfranogol – Defnyddiodd yr HIA ddulliau priodol, effeithiol a hygyrch o ymgysylltu ar gyfer y rhanddeiliaid oedd yn berthnasol ar gyfer yr asesiad hwn. Gweler Nodyn Esboniadol		
-----	---	--	--

Green L, Parry Williams L, Edmonds N (2017) WHIASU Quality Assurance Review Framework for HIA , WHIASU/Public Health Wales

Atodiad Dau – Nodiadau Esboniadol

	Nodiadau esboniadol ar gyfer maen prawf penodol yn unig. Mae mwy o arweiniad ar fethodoleg HIA ar gael o: Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol. Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, 2012
1	Adran 1: Gwybodaeth am y prosiect, polisi, cynllun neu gynnig
1.1	Graddfeydd amser: dylai fod yn glir pa gam y mae'r cynnig/prosiect arno (e.e. cynllunio/cyflenwi/gwerthuso adolygiad hanner ffordd). Dylai fod yn glir os oes ystod o gyfnodau gweithredu a allai fod ag effeithiau gwahanol ar iechyd e.e. cyfnodau adeiladu a gweithredol. Dylai'r canlynol fod yn glir: • hyd unrhyw gynllun a gweithredu • pwyntiau penderfynu a therfynau amser allweddol prosiectau Cysylltiadau neu bellter i brosiectau cyfagos eraill os yn berthnasol (am y gallai fod effeithiau cronol): Gallai hyn gynnwys prosiectau datblygu/adeiladu eraill sydd yn agos yn ddaearyddol i'r prosiect sy'n cael ei asesu. Gallai hefyd gynnwys rhaglenni eraill sydd yn gysylltiedig oherwydd newidiadau polisi, gweithredu polisi neu ail-ddylunio gwasanaeth a allai greu effeithiau cronol ar yr un grwpiau poblogaeth.

2	Adran 2: Methodoleg: Ai HIA ydyw? A yw wedi dilyn methodoleg HIA cydnabyddedig?
2.1	A oes cyfeiriad at fodel neu ganllawiau HIA? Er enghraifft: Gweler WHIASU (2012) HIA: Canllaw Ymarferol Ni fydd pob HIA yn cynnwys Sgrinio am y gall yr HIA fod yn ofynnol yn ôl deddfwriaeth, neu gall fod yn rhan o raglen sydd yn gofyn am HIA. Dylai sgrinio nodi a yw'r prosiect neu'r polisi sy'n cael ei gynnig yn debygol o gael effaith arwyddocaol (cadarnhaol neu negyddol) ar iechyd ac anghydraddoldebau iechyd, a graddfa a difrifoldeb posibl yr effaith hwnnw. Ni ddylai sgrinio gael ei wneud gan un person. Dylai fod yn glir bod ystod o safbwyntiau a gwybodaeth yn cael eu cynrychioli yn y broses sgrinio. Gallai'r rhain gynnwys cynigiwr HIA, defnyddiwr gwasanaeth/aelod cymunedol, aelod o staff, rheolwr gweithredol, rhanddeiliaid allweddol eraill. Dylai sgrinio nodi a allai HIA helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau/cynllunio prosiect. Cwmpasu: Dylai hyn gynnwys esboniad clir ynghylch pa benderfynyddion iechyd a llesiant oedd ffocws yr HIA yn cynnwys cyfiawnhad am unrhyw benderfynyddion a gwmpaswyd yn allanol.
2.3	A yw'n glir pwy benderfynodd y dylid cynnal HIA a pham? Beth mae'r HIA yn bwriadu ei gyflawni?
2.7	Gallai hyn gynnwys: • Pobl sydd yn gysylltiedig â chynllunio a chyflenwi'r prosiect • Pobl fydd yn gysylltiedig â'r gweithredu • Pobl sydd wedi eu heffeithio gan y prosiect/cynnig e.e. trigolion lleol, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, tenantiaid • Sefydliadau partner neu sefydliadau eraill • Safbwyntiau pobl â gwybodaeth a mewnwleidiad lleol neu berthnasol • Aelodau o'r gymuned a'u cynrychiolwyr • Safbwyntiau academyddion neu weithwyr proffesiynol â gwybodaeth mewn maes arbenigol

	• Sefydliadau sy'n rhoi cyngor ar bynciau penodol (e.e. ar ymchwil trafnidiaeth) • Sefydliadau cenedlaethol perthnasol
2.8	Dylai fod yn glir sut y deilliodd yr HIA, pa sefydliadau arweiniodd neu a gomisiynodd yr HIA a'r rolau a'r cyfrifoldebau a neilltuwyd. Dylid cofnodi Cylch Gorchwyl ac aelodaeth unrhyw grŵp llywio.
3	Adran 3: Tystiolaeth: A yw'r dystiolaeth a ddefnyddir i nodi ac asesu effeithiau yn gadarn?
3.2	Gallai proffil iechyd cymunedol/poblogaeth gynnwys: • Ystadegau lleol sy'n cael eu casglu fel mater o drefn (e.e. ar iechyd, diweithdra, troseddu ac ansawdd aer) • Arolygon amodau lleol • Proffiliau cymunedol • Pryderon lleol (os ydynt wedi eu cofnodi) • Dadansoddiad eilaidd o ddata lleol presennol • Arolygon neu ymgynghoriadau trigolion • Arolygon/ymchwil lleol arall
3.3	Adolygiad llenyddiaeth/tystiolaeth Gallai cael gafael ar ganllaw ar gyfer adolygu tystiolaeth ar gyfer HIA fod yn ddefnyddiol ar gyfer asesu ansawdd yr adolygiad llenyddiaeth/tystiolaeth. Er enghraifft: Mindell et al (2005) A Guide to Reviewing Evidence for use in Health Impact Assessment, Arsyllfa Iechyd Llundain Rhai cwestiynau allweddol i'w gofyn: • A yw'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd wedi ei diweddarau, o ansawdd uchel ac o ffynonellau cymeradwy? • A yw'r awduron wedi arfarnu'r llenyddiaeth yn feirniadol? Er enghraifft, asesu'r dulliau, meintiau sampl a'r

	poblogaethau a astudiwyd. • A ydynt yn dyfynnu mwy nag un astudiaeth sydd yn nodi canfyddiadau tebyg? • A yw'r sail dystiolaeth yn anghyson neu'n ddiffygiol? • Y ydynt wedi defnyddio'r 'egwyddor ragofalus'¹ lle mae dystiolaeth o effaith negyddol bosibl yn cael ei chanfod, ond mae'n gyfyngedig ei natur? Gallai ffynonellau ar gyfer yr adolygiad llenyddiaeth/ dystiolaeth gynnwys: • Ymchwil a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion academiaidd y cafwyd mynediad iddynt trwy chwiliadau llenyddiaeth arbennig mewn llyfrgelloedd neu ar y Rhyngrwyd • Ymchwil a gynhaliwyd neu a gomisiynwyd gan sefydliadau statudol, gwirfoddol neu breifat • Rhagfynegiadau gan fodelau • Gwybodaeth am gynigion tebyg a weithredwyd rhywle arall a llenyddiaeth fras arall (e.e. astudiaethau achos)
3.4	Gwybodaeth a phrofiad rhanddeiliaid (ansoddol).

1 Yr Egwyddor Ragofalus: "pan fydd gweithgaredd yn bygwth niweidio iechyd neu'r amgylchedd, dylid cymrud mesurau rhagofalus hyd yn oed os yw rhai cysylltiadau achos ac effaith heb eu sefydlu'n llawn yn wyddonol" Cynhadledd Wingspread ar Egwyddor Ragofalus 1998 <http://sehn.org/wingspread-conference-on-the-precautionary-principle/>

	Canllaw cyfeirio defnyddiol yw Gweithgor Cyfranogiad Rhanddeiliaid HIA 201 o Weithdy'r Americas (2012) Guidance and Best Practices for Stakeholder Participation in Health Impact Assessments - Fersiwn 1.0, Human Impact Partners, Habitat. Gweler 2.7 am enghreifftiau o rai o'r rhanddeiliaid allai fod yn gysylltiedig am eu safbwyntiau Pa ddulliau a ddefnyddiwyd i samplu, casglu, cofnodi a dadansoddi'r data ansoddol hwn? Gallent gynnwys: arolygon, gweithdy, grwpiau ffocws a chyfweliadau. A oes data cyfweliad neu weithdy o: • Drigolion a gweithwyr proffesiynol gyda gwybodaeth a mewnwelediad lleol neu berthnasol? • Aelodau cymunedol a'u cynrychiolwyr? • Academyddion neu weithwyr proffesiynol unigol â gwybodaeth mewn maes arbenigol? A ddarperir gwybodaeth/arweiniad gan: • Sefydliadau sy'n rhoi cyngor ar bynciau penodol (e.e. ar ymchwil trafnidiaeth)? • Sefydliadau cenedlaethol perthnasol? A gymerwyd camau i sicrhau bod cyfranogiad yn yr HIA yn hygyrch i bawb oedd yn dymuno cymryd rhan? A gymerwyd unrhyw gamau i addasu dulliau ymgysylltu neu i gefnogi grwpiau anodd eu cyrraedd i ymgysylltu? Gellir cael mwy o wybodaeth am Egwyddorion Cyfranogiad yn Cyfranogaeth Cymru - http://participation.cymru/cy/principles/
3.6	Dylai hyn fod yn gymesur â'r amcanion a'r raddfa ar gyfer yr HIA a gynhaliwyd.

4	Adran 4: Arfarnu, Asesu a nodi effeithiau
4.1	Gallai hyn fod mewn tabl neu ar ffurf naratif.
4.2	Gallai hyn fod mewn tabl neu ar ffurf naratif
4.3	Ydych chi'n hyderus nad oes unrhyw fias yn yr adrodd?
4.4	A yw'r prosiect hwn yn gysylltiedig, wedi ei lwyfannu neu'n gyfagos i unrhyw ddatblygiadau eraill a allai effeithio ar yr un poblogaethau?
4.5	Nod HIA yw integreiddio a defnyddio mathau gwahanol o dystiolaeth. Dylai fod yn glir sut mae'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu'n cael ei hintegreiddio i wneud yr asesiad cyffredinol.
4.6	Allwch chi nodi a yw effaith yn cael ei chefnogi gan y proffil iechyd cymunedol, adolygiad tystiolaeth, safbwyntiau rhanddeiliaid neu bob un o'r tri? Cyflawnir hyn yn aml trwy gyflwyno tabl gyda'r effeithiau allweddol wedi eu nodi ynghyd â pha fath o dystiolaeth sy'n cefnogi bob canfyddiad: proffil iechyd cymunedol, adolygiad tystiolaeth, safbwyntiau rhanddeiliaid neu gyfuniad o'r rhain.
4.7	A yw grwpiau penodol neu grwpiau agored i niwed yn cael eu heffeithio'n fwy nag eraill ac a yw hyn yn cael ei ddisgrifio a'i esbonio'n glir?
4.8	A yw effeithiau iechyd allweddol yn cael eu gwahaniaethu fel rhan isafswm, cymedrol neu ddifrifol? Mewn HIA gyda ffocws cryf ar effeithiau amgylcheddol, a/neu bennod iechyd Asesiad Amgylcheddol Strategol neu Asesu Effaith Amgylcheddol, dylai'r rhain fod yn bendant. Mewn HIA gyda ffocws cyfranogol ac ansoddol, gall fod yn bosibl graddio pwysigrwydd tebygol neu ddifrifoldeb effeithiau,

	er na ellir meintoli hyn o bosibl.
4.9	Er enghraifft: os yw'r sgrinio a'r cwmpasu wedi nodi nifer o grwpiau allai fod yn agored i niwed a/neu benderfynyddion, a ydynt i gyd wedi cael eu hystyried yn yr asesiad?
5	Adran 5: Casgliadau, Argymhellion a Monitro
5.8	A yw'r adroddiad hwn wedi ei drefnu'n dda? Allwch chi ddod o hyd i adrannau a data allweddol yn hawdd? A yw'n llifo'n dda?
5.12	Bydd rhai HIA yn rhan o adroddiad mwy ac yn yr achos hwn ni ddisgwylir crynodeb gweithredol
6	Adran 6: Egwyddorion a Llywodraethu: A yw wedi cael ei gynnal mewn ffordd sy'n bodloni egwyddorion a moeseg HIA?
6.1	Tegwch Mae proffil iechyd y boblogaeth/gymuned yn cynnwys dangosyddion o benderfynyddion ehangach, anghydraddoldebau iechyd a grwpiau agored i niwed yn y boblogaeth. Gwneir asesiad o'r ffordd y gallai'r prosiect/cynnig effeithio ar grwpiau sydd yn agored i anghydraddoldebau iechyd.
6.2	Tryloyw ac agored A oedd grŵp llywio yn goruchwyllo ac yn arwain y broses HIA? Pwy oedd yr aelodau a sut y gwnaed penderfyniadau allweddol? A yw'n glir sut y cafodd yr HIA ei greu a'i ariannu

	Allwch chi nodi pa sefydliadau arweiniodd yr HIA Unrhyw wrthdaro buddiannau a photensial ar gyfer bias yn cael eu nodi. Unrhyw rwystrau neu gyfyngiadau yn cynnal yr HIA yn cael eu nodi yn yr adroddiad Mae'n amlwg sut y gwnaed penderfyniadau allweddol am yr HIA a sut y darperir rhesymeg Roedd y broses HIA yn cynnwys gwirio bod safbwyntiau'r rhanddeiliaid wedi cael eu cofnodi'n gywir ac wedi eu hadlewyrchu yn yr HIA. Cafodd y rhanddeiliaid gyfle i roi sylwadau ar y drafft terfynol. Mae'r adroddiad HIA llawn a'r atodiadau ar gael yn gyhoeddus ac yn hygyrch i bob rhanddeiliad. Gellir cysylltu'r casgliadau a'r argymhellion yn glir i'r effeithiau a nodwyd a'r ffynonellau tystiolaeth.
6.3	Democrataidd Mae'r ffocws ar a yw'r nifer a'r ystod briodol o randdeiliaid wedi cymryd rhan (h.y. yn gynrychioliadol o grwpiau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig yn ogystal â'r rheiny sydd ag arbenigedd proffesiynol lleol perthnasol) A yw'n glir pwy sydd wedi bod yn rhan o'r HIA a safbwyntiau pwy sydd wedi cael eu cynnwys fel rhan o'r asesiad o'r effeithiau ac wrth nodi argymhellion? Allwch chi nodi unrhyw randdeiliaid allweddol sydd heb eu cynrychioli? Os gallwch, efallai yr hoffech gael eglurhad ynghylch a gysylltwyd â nhw a sut.

6.4	Cynaliadwy Eir i'r afael ag effeithiau tymor byr, canolig a hirdymor yn yr HIA lle y bo'n briodol
6.5	Cyfranogol Mae'r cyfranogiad yn canolbwyntio ar y broses o ymgysylltiad/cyfranogiad gweithredol yn hytrach nag ymgynghori goddefol. A gymerwyd camau i sicrhau bod cymryd rhan yn yr HIA yn hygyrch i bawb oedd yn dymuno cymryd rhan? A gymerwyd unrhyw gamau i addasu'r dulliau ymgysylltu neu i gefnogi grwpiau anodd eu cyrraedd i ymgysylltu? A yw'n glir pa randdeiliaid wnaeth ymgysylltu a faint wnaeth gymryd rhan?